CANOLFAN CYMRAEG I OEDOLION GOGLEDD CYMRU
WELSH FOR ADULTS CENTRE NORTH WALES

PANEL DARPARWYR GOGLEDD CYMRU

Cynhaliwyd cyfarfod o Banel y Darparwyr ddydd Mercher, Mehefin 13 am 1.30yp yn Ystafell Rhos, Coleg Llandrillo Cymru.

Presennol: Elwyn Hughes (Cadeirydd, Prifysgol Cymru, Bangor); Howard Edwards (Popeth Cymraeg); Jim O'Rourke (Nant Gwrtheyrn); Ioan Talfryn (Popeth Cymraeg); Ann Hughes (Coleg Menai); Gary Smith (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Haydn Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Pam Evans-Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Jina Gwyrfai (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Frances Jones (Popeth Cymraeg); Dona Padan (Coleg Llysfasi); Myfi Brier (Coleg Llysfasi); Rhian McCarthy (Coleg Llandrillo Cymru); Samantha Studt (Coleg Meirion Dwyfor); Meirionna Jones (Coleg Meirion Dwyfor); Dafydd Rhys (Coleg Harlech WEA); Iwan Davies (Ysgrifennydd, Canolfan Cymraeg i Oedolion)

Ymddiheuriadau: Non Lewis Edwards (Coleg Glannau Dyfrdwy); Sharon Owen (Coleg Menai); Llinos Price (Coleg Harlech WEA); Ifor Gruffydd (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Gwenan Owain (Coleg Llysfasi); Jeni Harris (Coleg Iâl)

Gweithredu

1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

2. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD 9 MAWRTH

Cadarnhawyd fod cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd 9 Mawrth 2007 yn gywir.

3. MATERION YN CODI

a) Cafwyd cadarnhad bod JG a PEH yn cydweithio yn agos gyda chyrff perthnasol fel Mentrau Iaith a Bwrdd yr Iaith, ond nad oedd penderfyniad wedi'i wneud eto ynglŷn â'r ffordd orau o'u cynnwys o fewn strwythur cyfarfodydd y Panel.
b) Cafwyd cyfarfod o'r Is-Grŵp Ansawdd ym mis Mai. Yn y dyfodol, dylid amseru cyfarfodydd mewn modd a fyddai'n hwyluso llwybrau adrodd. Cytunwyd y byddai'r Is-Grŵp Ansawdd yn cyfarfod yn y bore ac yna'r Panel Darparwyr yn y prynhawn ar yr un diwrnod yn y dyfodol, a bod y Grŵp

Strategol yn cyfarfod yn fuan ar ôl hynny.

c) Rhaid enwi'r cyrsiau yn unol â lefelau CBAC, mae llythyr wedi ei anfon at Benaethiaid pob darparwr.

ch) Bydd ffurflenni cofrestru arholiadau CBAC am 2007/08 yn cael eu prosesu gan y Ganolfan.

d) Nid yw RhCA wedi apwyntio neb dros-dro i greu tasgau. Mae aelodau o staff y Canolfannau wedi ymgymryd â'r gwaith.

4. CYFLWYNIAD AR WEFAN Y GANOLFAN

Cafwyd cyflwyniad o wefan y Ganolfan gan Gary Smith, Rheolwr Data.

- Cafodd y safle ei lansio'n swyddogol yr wythnos diwethaf efo dros 1500 yn ymweld ar safle mewn un diwrnod.
- Mae parth arbennig wedi ei roi i'r wefan sef learncymraeg.org sydd wrth gwrs yn hawdd i'w gofio.
- Canolfan Cymraeg i Oedolion yw'r unig Ganolfan sydd efo safle cwbl ddwyieithog ar hyn o bryd.
- Mae manylion y cyrsiau ar y wefan yn cael eu codi o'r ffurflenni 2.2.2 fellly mae'n bwysig sicrhau bod y wybodaeth ar y ffurflenni hynny yn gyflawn ac yn gyfredol.
- Bydd angen ychwanegu dyddiadau dechrau at fanylion y cyrsiau a gwybodaeth eglur ynglyn ag union natur y cwrs. Y gobaith fydd cael lluniau lleoliadau cyrsiau ar y wefan yn fuan a hefyd ffilmio rhai dosbarthiadau er mwyn hybu'r ddarpariaeth ymhellach.
- Bydd y darparwyr yn anfon yr holl wybodaeth ymlaen at JG a PEH a wedyn bydd y wybodaeth yn cael ei fwydo ar y wefan gan GS.
- Eglurwyd nad oedd linc efo'r Canolfannau eraill yng Nghymru: gwnaethpwyd argymhelliad cryf y dylai AADGOS sicrhau bod hyn yn digwydd a gofynnwyd i ***IG godi'r mater yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor Llywio'r Canolfannau.*** **IG**
- Dylid sicrhau bod cyrsiau sydd yn cael eu canslo gael eu dileu yn syth oddi ar y wefan. Dylai pob cwrs sy'n rhedeg aros ar y wefan gan y gallai dysgwyr sydd â rhywfaint o wybodaeth o'r Gymraeg ymuno â chwrs yn ystod y flwyddyn.

5. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR

Yn absenoldeb y Cyfarwyddwr, cafwyd adroddiad gan HH a mynegodd:

a) AADGOS wedi newid fformiwla'r drefn gyllido, sy'n golygu ar hyn o bryd na fydd y cynnydd o 10% yn cael ei wireddu. Mae'r canolfannau mewn trafodaethau efo AADGOS ar sut i ddatrys y broblem.

b) Bydd cynllunio yn seiliedig ar ddarpariaeth 2006/07 ar hyn o bryd hyd y cawn wybodaeth bellach gan AADGOS.

c) Bydd ymgynghoriad ar y cytundebau drafft ymhen yr wythnos. Bu Dr Haydn Edwards a Janice Lewis, Coleg Menai yn cydweithio gyda IG.

d) Cafwyd adroddiad ar sefyllfa'r gweithgorau cenedlaethol a fydd yn atebol i Llywodraeth Cynulliad Cymru.

dd) Bydd Gary Smith, Rheolwr Data yn trefnu i ymweld a'r darparwyr i drafod beth sydd angen fel data gan bob darparwr.

e) Bydd y Ganolfan yn trefnu ymgyrch hysbysebu yn y wasg yn hanner cyntaf mis Medi 2007,

- ***bydd angen cydweithio efo'r darparwyr efo'r hysbysebu er mwyn osgoi dyblygu.*** **IG**
- bydd hysbyseb yn ymddangos ymhob papur lleol yn y rhanbarth, targedu cyrsiau dechreuwyr yn unig efo'r darparwyr, pawb o'r darparwyr yn gytûn ar hyn.
- Bydd rhaid sicrhau fod pob darparwr yn derbyn proflen cyn ei anfon at y wasg***. Bydd GS yn creu CD i'w dosbarthu at yr holl ddarparwyr efo'r logo er mwyn hwyluso'r broses o gynnwys y logo ar ddeunydd cyhoeddusrwydd.*** **GS**

f) Maes arweiniol Canolfan y Gogledd o fewn y gyfundrefn genedlaethol fydd y Cwricwlwm Dwys. Cynhaliwyd un cyfarfod o'r Grŵp Tasg hyd yn hyn a bydd IG yn cyflwyno papur i'r Pwyllgor Llywio ar ddiwedd Mehefin.

6. ADRODDIAD O'R IS-BANEL ANSAWDD

Derbyniwyd yr adroddiadau ar ansawdd ac yn benodol y newidiadau i'r cynllun arsylwi sef:

- Peilota cynllun yn rhannau dwyreiniol y rhanbarth yn 2007/08.
- Gwerthuso'r broses yn drylwyr.
- Pob sefydliad i gael ei arsylwi yn 2008/09.
- Trafodaethau gyda Coleg Menai a Coleg Meirion Dwyfor ynglŷn a'r ffordd ymlaen.
- Bydd cwrs hyfforddi Estyn yn cymryd lle, ond cafwyd ar ddeall gan Estyn mai un cynrychiolydd fydd yn mynychu ar ran pob Canolfan. Bydd cwrs cyfatebol yn cael ei gynnal 17eg a 18fed Gorffennaf 2007 yng Ngwesty Bryn Howel, Llangollen.
- Cydweithio gyda Chanolfan y Canolbarth i geisio cysoni'r gweithdrefnau ansawdd. ***Bydd angen trafod yn yr Is-Grŵp Ansawdd nesaf sut y bydd y darparwyr yn mynd i gael y wybodaeth gan Estyn.*** **HH**

7. DARPARIAETH 2006/07 A 2007/08 ADRODDIADAU GAN Y SWYDDOGION DATBLYGU

Mynegodd JG fod y ddarpariaeth ar gyfer 2006/07 98.8% yn gyflawn ond bydd angen gwybodaeth lawn cyn gynted â phosib. Cafwyd dadansoddiad ystadegol o'r wybodaeth a ddaeth i law, fesul sir a fesul lefel. Nodwyd nad yw categori 'Mynediad' yn dangos yn eglur pa fyfyrwyr sy'n ddechreuwyr pur a pha rai sydd ar eu hail flwyddyn o ddysgu. Mae darpariaeth allgyrsiol ar gyfer 2007/08 wedi ei fapio, bydd angen unrhyw wybodaeth am ddarpariaeth all gyrsiol gan y darparwyr. Mi ddylai'r Ganolfan fod wedi derbyn rhaglen gyflawn ar gyfer 2007/08 erbyn hyn,

pwysleisiodd JG pa mor bwysig yw cael y wybodaeth cyn gynted â phosib. Eglurodd PEH fod gweithgor cenedlaethol Cymraeg i'r Teulu wedi cyfarfod ddwy waith. Mae cynllun peilot yn mynd yn ei flaen yn ardal Wrecsam a Bodorgan, Ynys Môn, lle mae rhieni a phlant dosbarthiadau meithrin a derbyn yn cael eu dysgu ar y cyd. Mae'r gweithgor yn cydweithio gyda Llew Jones, RhCA i greu credydau newydd ar gyfer y ddarpariaeth hon. Mae Gweithgor Cymraeg yn y Gweithle wedi amlygu mor anwastad yw'r ddarpariaeth ar draws Cymru. Bydd angen gwneud mwy o waith ymchwil efo'r darparwyr a hefyd cydweithio efo RhCA i greu credydau priodol. Mae JG wedi cynnal sesiynau blasu i fewnfudwyr yn Afonwen a Hafan y Môr.

8. CYHOEDDUSRWYDD A MARCHNATA

Dosbarthwyd copi o daflen sirol enghreifftiol a fydd yn rhestru'r holl gyrsiau o fewn y sir honno. Cafwyd trafodaeth hir ar natur a manylder y wybodaeth i'w chynnwys am bob cwrs a bydd y Swyddogion Datblygu'n addasu'r taflenni ar sail yr argymhellion a wnaethpwyd. Gofynnwyd i'r Ganolfan roi gwybod i'r darparwyr faint o daflenni a fydd yn cael eu cynhyrchu a ble byddant yn cael eu dosbarthu er mwyn osgoi dyblygu ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd y darparwyr eu hunain. Bydd stondin Canolfan Cymraeg i Oedolion ar Faes D, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Sir y Fflint a'r Cyffiniau. Gwahoddir darparwyr i enwebu gwirfoddolwyr i weithio ar y stondin. Bydd cynnyrch marchnata'r holl ganolfannau ar gael ar y stondin. Bydd 4 slot ym mhabell Prifysgol Cymru, Bangor lle bydd lansiad swyddogol y Ganolfan a sgyrsiau am ymchwil Gwlad y Basg.

9. HYFFORDDIANT

Derbyniwyd yr adroddiad a nodwyd y canlynol yn benodol:

- Targedu y rhai nad ydynt wedi mynychu sesiynau hyfforddi.
- Cymhwyster Cenedlaethol wedi ei ohirio tan Ionawr 2008.
- Rhaglen newydd ar gyfer Hydref 2007.
- Sesiynau Mynediad a Sylfaen ym Mangor a Llangollen ar 19^{eg} Gorffennaf 2007.
- Cynhadledd Hyfforddi yng Ngwesty Bryn Howel, Llangollen, 8^{fed} a 9^{fed} Chwefror 2008, ***dylai pob darparwr ystyried i gadw'r dyddiadau yn rhydd o ddysgu fel bod tiwtoriaid yn cael mynychu.*** **Darparwyr**
- Cynhadledd AADGOS yn cael ei chynnal yng Nghaerdydd, 9^{fed} a 10^{fed} Tachwedd 2007.
- Telerau talu'r tiwtoriaid - mae'r Grŵp Strategol eisiau trafodaethau ar delerau talu tiwtoriaid, byddwn yn argymell i'r Grŵp Strategol y byddwn yn talu tiwtoriaid £50.00 y dydd, a £30.00 am ½ diwrnod ynghyd â chostau teithio.

10. DATA A THARGEDAU

Nid oedd dim byd angen i'w drafod efo data a thargedu.

11. DIGWYDDIADAU

Mae Popeth Cymraeg efo darpariaeth eang o Ysgolion Haf yn Ninbych, Yr Wyddgrug a Llanrwst yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf 2007. Bydd diwrnod i ddysgwyr sydd yn cael ei drefnu gan y BBC yn cael ei gynnal yn Llaneurgain ar 13eg Gorffennaf 2007.

12. U.F.A.

Mynegodd DR bod Coleg Harlech/WEA yn gweithio ar broject newydd lle byddant yn datblygu unedau ar y cyd efo'r Coleg Agored, cydweithio gyda'r Mentrau Iaith ar addysg cyfrwng Cymraeg.

13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cyfarfod Panel Darparwyr, pnawn Mercher, 10fed Hydref 2007 yng Ngholeg Llandrillo Cymru am 1.30yp.